# <u>Cyngor Cymuned Llanystumdwy</u>

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 6 o Dachwedd 2025 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Goffa Chwilog, a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

1. **<u>Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.</u>**

   **<u>Yn bresennol</u>** y Cynghorwyr Anwen Jones (Cadeirydd), Rhys Tudur, Dewi Thomas, Aled Evans, Aled Davies, Delyth Parry, Gareth Davies, Dylan Thomas, Angharad Llwyd-Jones a'r Clerc.

   **<u>Ymddiheuriadau</u>** – Cynghorydd Miriam Williams, Tegid Jones, Euros Jones, Sian Angharad Parry, ac Angela Williams.

2. **<u>Cyflwyno a chadarnhau cofnodion</u>** cyfarfod 2ail o Hydref 2025.

3. **<u>Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS</u>** mis Hydref 2025.

4. **<u>Datgan buddiant personol</u>** – Cynghorydd Angharad Llwyd-Jones, cais Cynllunio 7(b) Penybryn, Chwilog – oherwydd ei bod yn perthyn i'r ymgeisydd.

5. **<u>Cynghorydd Darren Morley wedi penderfynu ymddiswyddo ar Ward Llanystumdwy.</u>** Derbyniwyd ebost ganddo, yn diolch i holl aelodau'r Cyngor am eu cefnogaeth a'u cyfeillgarwch dros y blynyddoedd, a'i bod yn fraint gwasanaethu'r gymuned ochr yn ochr â chyd-aelodau mor ymroddedig.

6. **<u>Materion gan Cyngor Gwynedd</u>**

a) **Rhaglen waith mis Tachwedd, 2025**

| **Rhif y Ffordd** | **Lleoliad y Gwaith** | **Disgrifiad o'r Gwaith** |
|---|---|---|
| Dosbarth III | Llyselphin – Bro Sion Wyn, Chwilog | Atgyweirio draeniau |
| A497 | Ynysgain | Gwliau newydd |
| B4411 | Hafod y Coed, Rhoslan, Llanystumdwy | Atgyweirio draen |
| | (10.11.2025 - 14.11.2025) | Tim Tacluso Ardal Ni |

b) **<u>Partneriaeth Natur Gwynedd</u>** – ebost gan Mr Hywyn Williams, Swyddog Bioamrywiaeth, Cyngor Gwynedd. Cyfle i fuddsoddi 'er budd natur' yn ein etholaeth drwy raglen Cymunedau Gwyrdd Gwynedd. Cronfa ar gael i hyrwyddo bioamrywiaeth, drwy wella tir sydd o dan berchogaeth gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned. Y Clerc wedi cysylltu hefo Pennaeth Ysgol Llanystumdwy ac mae wedi cytuno byddai hyn yn syniad da, sef creu dolydd blodau brodorol, cynnal tir er budd natur ar dir yr ysgol. Y Clerc wedi llenwi'r ffurflen gais.

c) **<u>Dydd Gŵyl Dewi 2026 - Cronfa Gymorth Beilot - Llywodraeth Cymru</u>**
Clerc wedi anfon y manylion at bawb, mae'r dyddiad cau ar 14.11.2025.

ch) **Holiadur Cynghorau Cymuned a Thref – Gwasanaethau ac Ymholiadau**
Derbyniwyd cais gan Catrin Thomas, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Gwynedd yn dweud ei bod yn awyddus i dderbyn adborth ar sut mae Cyngor Gwynedd yn ymdrin ac yn ymateb i ymholiadau sy'n cael eu cyflwyno gan Gynghorau Cymuned a Thref. Roedd yn dweud fod cydweithio gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref yn rhan bwysig o'r ffordd maent yn gweithio, ac yn rhan allweddol o ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd.

Maent angen adborth a mewnbwn ar brofiadau diweddar, ond hefyd mewnbwn ar sut i wella trefniadau, erbyn 12.11.2025. Clerc i son fod rhai adrannau yn well na'i gilydd, a'i bod yn anodd iawn cysylltu hefo'r Adran Cynllunio.

7. **Cais cynllunio sydd angen penderfyniad**

a) **C25/0710/41/LL Tir gar Brynhyfryd/ Cae Capel, Chwilog** - Codi 25 o dai fforddiadwy, creu mynedfa newydd i gerbydau o'r B4354 ynghŷd â gwaith cysylltiedig. **Penderfynwyd gwrthod yr unfrydol ar sail yr isod**.

Mae'r farn leol yn erbyn cael stad o dai ar y tir yma, ac mae deiseb hefo tua 160 o enwau wedi cael ei llofnodi yn y pentre yn gwrthod y datblygiad. Bydd y ddeiseb yn cael ei chyflwyno i Cyngor Gwynedd gan y rhai fu'n holi'r pentrefwyr.

Dyma'r prif resymau am wrthod y cais:-

Gor ddatblygu yn effeithio ar gymeriad y pentref.
Creu gormod o gynnydd mewn tai yn mynd i fod yn straen ar y pentref.
Mae gan pentref Chwilog un o'r canranau uchaf o siaradwyr Cymraeg mewn pentref o fewn Gwynedd.
Anodd intregreiddio 25 o dai yn y pentref, o ran creu problem ieithyddol.

A yw'r data a dderbyniwyd am fod angen cymaint o dai yn Chwilog yn ddibynadwy? Derbyniwyd gwybodaeth mai dim ond lle i tua 7 o blant ychwanegol sydd yn Ysgol Chwilog ar hyn o bryd.

**Diffyg Cyswllt lleol** – dylai fod cyswllt agos â'r pentref neu o fewn cymuned Llanystumdwy fod yn factor dros roi blaenoriaeth i denant newydd, bob tro bydd newid mewn tenantiaeth.

**Ffactor yr iaith Gymraeg** mae Cyngor Cymuned Llanystumdwy wedi cael ei dynodi yn ardal o arwyddocâd ieithyddol.

**Angen Polisi Ieithyddol** – mae Chwilog yn bentref Cymraeg ac mae angen parchu hynny, fel bod hynny'n cael ei ystyried wrth osod y tai.

**Angen Polisi Gosod Lleol newydd** – er mwyn rhoi ystyriaeth ieithyddol wrth osod y tai. Mae angen hyn ar gyfer y tai yn Y Ffor hefyd, a drwy Wynedd. Mae'n bryder mawr y bydd tenantiaid newydd yn symud i mewn i'r ardal o'r tu allan i'r ardal a thu allan i Wynedd. Mae problemau yn amlygu mewn pentrefi cyfagos, megis Llanystumdwy a Chricieth, ble mae tenantiaid yn achosi problemau a thor cyfraith. Nid yw hyn yn broblem yn Chwilog ar y funud.

**Trosiant tai yn broblem** – mae hyn yn broblem wrth i denantiaid ddewis cyfnewid tenantiaethau ymysg ei gilydd. Mae hyn yn gallu creu problem ieithyddol a phroblemau ymddygiad.

**Priffordd** – diogelwch 20 milltir yr awr. Mae llawer iawn o gerbydau/loriau/tractorau yn pasio drwy'r pentref. Bydd angen sicrhau fod palmant saff o'r stad newydd i'r pentref. A oes lle i roi un yno yr holl ffordd, heb orfod cymryd darn o erddi tai cyfagos?

**Carthffosiaeth** – bu son fod problem hefo'r lleoliad yma flynyddoedd yn nol, pan oedd bwriad i adeiladu tai yno.

b) **C25/0752/41/LL : Penybryn, Chwilog, Pwllheli** - Adeiladu storfa slyri newydd. **Cefnogi**.

c) **C25/0674/41/DT : Tyddyn Ychain, Chwilog** - Cais ar gyfer codi estyniad unllawr ar ochr yr eiddo. **Dim gwrthwynebiad.**

8. **Ty'n Ffridd, Ty'n Lon a Evans Caravans, Llanystumdwy**

Derbyniwyd gwybodaeth gan yr Uwch Swyddog Gorfodaeth Cynllunio, yn dweud fod Adran Gorfodaeth Cynllunio'r Cyngor wedi ennill apêl gan Mr John Evans i newid defnydd tir amaethyddol i storio a thrwsio carafanau teithiol, gosod cynhwysydd i'w ddefnyddio fel swyddfa, codi ffens galfanedig ynghyd â gweithrediad peirianneg sy'n cynnwys creu llawr caled ar dir Tŷ'n Ffridd, Afonwen.

Gofynion y rhybudd oedd:
Rhoi'r gorau i ddefnyddio'r tir fel iard storio a thrwsio carafanau;
Rhoi'r gorau i ddefnyddio'r tir ar gyfer lleoliad y cynhwysydd storio;
Cael gwared ar yr holl garafanau a'r cynhwysydd yn gyfan gwbl o'r tir;
Tynnu a chael gwared ar y ffens galfanedig o amgylch ffin y safle yn gyfan gwbl o'r tir;
Tynnu'r holl ddeunydd a ddefnyddiwyd wrth ffurfio'r llawr caled yn gyfan gwbl o'r tir;
Ar ôl cwblhau camau (i) i (v) uchod, ailsefydlu'r tir i'w gyflwr gwreiddiol fel cae amaethyddol trwy orchuddio'r safle â phridd uchaf ac ail-hadu â hadau glaswellt.

Ar ran cyfnod cydymffurfio mae:
1. Gofynion 1) i 5) - o fewn 2 fis o'r dyddiad y daw'r hysbysiad i rym;
2. Gofyniad 6) - o fewn 12 mis o'r dyddiad y daw'r hysbysiad i rym.

Mae ymweliad safle diweddar yn cadarnhau nad oes unrhyw ymdrech wedi bod gan y perchennog i gydymffurfio gyda'r rhybudd, ac felly mae'r perchennog yn cyflawni trosedd.

Mae'r Adran Cynllunio wedi cysylltu gyda'r asiant ac wedi dweud fod ganddo hyd at 08.11.2025 i wneud gofynion 1 i 5 o'r rhybudd. Os na fydd y gwaith yn cael ei wneud bydd y Cyngor yn cychwyn y broses o erlyniad yn y llysoedd pe bai'n parhau i anwybyddu gofynion y rhybudd gan Gyngor Gwynedd.

Gofynwyd i'r Clerc holi Cyngor Gwynedd am Ty'n Ffridd a'r ffaith fod yr eiddo yn cael ei osod i ymwelwyr. Hefyd, mae'r darn tir sydd y tu ol i fynwent Llanystumdwy wedi cael ei glirio, a'r pridd wedi ei symud, ac mae llawr caled wedi ei osod yno, angen i Cyngor Gwynedd wneud ymholiadau rhag ofn bod bwriad ganddynt gadw carafanau yno. Mae angen tynnu sylw Cyngor Gwynedd at y ffaith fod goleuadau nos rhy llachar o flaen safle Evans Caravans, mae'n peryglus iawn i fodurwyr sydd yn cael ei dallu wrth basio gyda'r gyda'r nos.

8. **Cyfarfod Cyswllt Rheilffordd Cambrian** - cynhelir y cyfarfod nesaf dydd Gwener, **21.11. 2025** drwy Zoom).

Mae'r Cynghorydd Dylan Thomas wedi cynnig mynychu'r cyfarfod, ac mae angen nodi unrhyw fater sydd angen ei trafod, un a'i gan y Gweithredwr Trenau, Network Rail, y Bartneriaeth neu'r Pwyllgor yn gyffredinol, erbyn **10.11.2025.**

**Materion yn y gymuned**.

9. **Llanystumdwy**
a) Yr enw a ddewiswyd gan y Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu ar y stâd newydd yw Cae'r Felin. Roeddent yn ddiolchgar iawn i bawb am yr awgrymiadau ac am gydweithredu mewn dewis enw addas ar gyfer y safle. Mae cwmni Tai Gogledd Cymru yn y broses o gysylltu hefo Ysgol Llanystumdwy (yn dilyn awgrym gan Cynghorydd Miriam Williams ar ol iddi fod yno), i weld sut storfa newydd yr oeddent ei angen.

b) **Clawdd lon Maen y Wern** – angen cysidro pris am dorri a chlirio'r safle, ac o dan y bont. Mae coeden wedi marw yma hefyd. **Cytunwyd i dderbyn pris Mr Idris Jones i wneud y gwaith.**

c) **Bin halen Caerffynnon** – Clerc wedi anfon ebost at Mr Gareth Roberts, Peirianydd Ardal Dwyfor i gael diweddariad ar pa bryd y bydd wedi cael ei osod. Cytunwyd i dalu amdano am bris o £365.00 (fis Mawrth 2025), a bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am unrhyw gostau ychwanegol o'i lenwi.

10. **Rhoslan/Ynys**

11. **Chwilog**
a) **Lloches Bws Maes Myrddin** – wedi gofyn am ganiatad y Cadeirydd i ofyn wrth Criccieth Cleaning lanhau y lloches oherwydd derbyniwyd gwbodaeth fod rhywun wedi bod yn sal yno, ac angen ei lanhau ar unwaith. Wedi cael pris, ac anfoneb i'w dalu, mae'r manylion ar ddiwedd y rhaglen.

b) **Pont y Felin / Glan y Wern** – cais i ofyn wrth Tím Tacluso Ardal Ni glirio'r tyfiant ar y bont. Mae eiddew ar waliau y bont a glaswellt yn tyfu ar hyd yr ochrau ac o flaen y rhesdai Glan y Wern. Mae gor-dyfiant gwrychoedd perchennog Ty'r Efail/ Yr Efail yn ymwthio i'r ffordd a un goeden yn cychwyn tyfu yno yn agos i ben y lôn. Os na wneir rywbeth yn ei chylch bydd yn goeden fawr yn fuan iawn. **Clerc wedi gofyn wrthynt fynd yno.**

c) **Arafu Traffig yn Chwilog.**
Derbyniwyd y wybodaeth isod gan Mr Andrew Gregson, Uwch Beirianydd Traffig yn cadarnhau:-

- Fod y Cyngor Cymuned wedi penderfynu peidio ariannu golau fflachio 'VAS' ar hyn o bryd ond am weld os oes cyfleoedd yn y dyfodol i osod arwydd.
- Wedi cytuno i'r weithred o osod arwyddion ailadrodd ('Roundels') ac o bosib 'dannedd draig'.
- Byddent angen cysylltu gyda'r uned 'Gan Bwyll' i weld yn union lle mae'r safleoedd gorfodaeth yn y pentref. O ganlyniad mi fydd rhaid i'r arwyddion ail adrodd cael ei gosod yn unol â'r safleoedd yma.
- Ar ôl edrych ar sgrin luniau o'r mynediad i'r pentref mae'n edrych yn debyg bod yna 'Rumble Strips' wrth deithio o Y Ffor i fewn i Chwilog, ond ddim o Afonwen. Bydd angen adnabod os yw 'dannedd draig' yn briodol os oes 'Rumble Strips' wedi ei gosod yn barod.

Dywedodd ei fod yn orfodol iddynt ymgynghori â'r rhanddeiliaid perthnasol – sef y gwasanaethau brys, cludiant cyhoeddus, a chludiant nwyddau trwm. Nid yw'n glir ar hyn o bryd a oes angen ymgynghori â'r trigolion cyfagos. Gan fod clustogau traffig eisoes yn bodoli ar y ffordd, efallai na fydd angen cynnwys y gymuned yn yr ymgynghoriad – byddai barn y Cyngor Cymuned ar hyn yn werthfawr. Cytunwyd y byddai'n well i swyddogion Cyngor Gwynedd ymgynghori â'r rhai sydd yn byw yn ymyl gyntaf.

Yn y cyfamser, maent yn paratoi pecyn gwaith er mwyn sicrhau pontio esmwyth o'r cam ymgynghori i'r cam adeiladu.

12. **Adeiladwaith Teithio Llesol Afonwen i Chwilog**

Derbyniwyd gwybodaeth fod adeiladwaith cynllun Teithiol Llesol rhwng Chwilog ac Afonwen yn cychwyn yn yr wythnosau nesaf rhwng cylchfan Afonwen i'r Golchdy gyda'r bwriad i'w orffen tuag at ddiwedd y flwyddyn gyllidol bresennol.
O ganlyniad y cam terfynol fydd i osod marciau ffordd i'r cynllun Teithio Llesol a bwriedir cymryd mantais o hyn gan gynnwys gwaith marciau ffordd ar hyd y ffordd o Bont y Inn am gyfeiriad Pen y groes yn ogystal. Mae hyn yn ychwanegol i'r gwaith twmpathau, marciau ffordd ac arwyddion tymor byr a gytunwyd.

13. **Pencaenewydd/Sardis**

**Cais am waharddau parcio – Cyffordd Stad Tregarn, Pencaenewydd**

Derbyniwyd gwybodaeth gan Cyngor Gwynedd yn dweud bod Adran Priffyrdd Dwyfor a'r Uwch Beiriannydd Traffig wedi bod yn trafod y pryder am y parcio sydd wrth gyffordd Tregarn.
Maent wedi atodi cynlluniau arfaethedig am waharddau parcio yn y lleoliadau perthnasol.

- Mae'r cynllun i roi llinnellau melyn i fynedfa'r stâd wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor Cymuned, ac **nid oes cefnogaeth** i ehangu'r gwaharddiadau ymhellach i lawr y ffordd.
- Byddant yn cychwyn cyn-ymgynghoriad cyhoeddus ar ei cyfle cyntaf er mwyn casglu sylwadau'r gymuned am y cynllun arfaethedig.

Ynglŷn â'r cerbydau sgrap, fe gysylltwyd â Gareth Roberts, Peiriannydd Ardal Dwyfor, i wirio os yw'r sefyllfa'n torri unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol. Dywedwyd os yw'r cerbydau'n gyfreithlon (h.y. wedi'u trethu, M.O.T. dilys, ac wedi ei yswirio), ni allent gymryd camau uniongyrchol i'w rhwystro.
Eglurwyd hefyd o ran Priffyrdd nid oedd mwy y gallent ei wneud oherwydd fod popeth yn symudol (ac i'w weld yn symud o ddydd i ddydd) neu'n gerbyd ac yn disgyn o ran cyfrifoldebau heddlu.

O ran ein awgrym i osod arwyddion fel "Dim Parcio Dros Nos" neu "Dim Sgrap – Dirwy", dyma oedd y sylwadau a gafwyd:-

- Ni ellir gosod arwyddion cyfreithiol ar y briffordd heb orchymyn traffig ffurfiol (TRO).
- Mae dirwyon am droseddau parcio gyda isafswm o £50 a uchafwm o £70 ar gyfer troseddau safonol, gyda gostyngiad os telir yn gynnar.

- Mae cerbydau sgrap neu heb drwydded yn gallu cael eu symud gan yr heddlu os ydynt yn achosi rhwystr neu berygl, ond dim ond os ydynt yn torri Rheolau'r Ffordd Fawr neu'n cael eu hystyried fel "wedi eu gadael".

Heb waharddiadau parcio statudol neu orchymyn penodol, nid yw'n bosib gweithredu'n ffurfiol ar hyn o bryd.
Derbynwyd gwybodaeth gan Philip Pritchard, Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd, ac fe ddywedodd y byddai'n well adrodd ein pryderon am y 'sgrap' i Gyfoeth Naturiol Cymru sydd yn gyfrifol am awdurdodi a thrwyddedu 'delwyr sgrap' ac efallai bydd gan drwydded sgrap yr unigolyn amod(au) perthnasol i'r sefyllfa.
Ar ran Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd pwerau yn ymwneud ag 'cherbydau wedi cael i gadael' sydd ganddynt.
Y Clerc hefyd wedi cysylltu hefo Cyfoeth Naturiol Cymru i nodi ein pryderon, ac maent am edrych i mewn i'r mater oherwydd nad oedd ganddo drwydded.
**<u>Gofynwyd i'r Clerc ofyn am gael arwyddion 'Dim Parcio' dros nos.</u>**

14. **<u>Llangybi</u>**.

a) **<u>Tyddyn Llan, Llangybi -</u>** mae dŵr yn cronni ar y ffordd ger ardal mynediad Tyddyn Llan, ac angen clirio ffosydd yma. Clerc i wneud ymholiadau.
b) **<u>Arwydd Terfyn cyflymder</u>** - rhwng Capel Helyg a chornel Ffynnon Cybi wedi ei ddinistrio wrth dorri gwrychoedd. Clerc i hysbysu'r Cyngor.
c) **<u>Coed peryglus rhwng Tyn Lon ac Ynys Greua</u>** – Clerc wedi anfon lluniau at Cyngor Gwynedd.

ch) **<u>Cae Chwarae Llangybi</u>** - wedi derbyn Adroddiad blynyddol gan Fields in Trust. Angen gwneud gwaith trwsio i'r ffram ddringo 'risg cymhedrol', ac angen cofnodi archwiliad wythnosol ar y lle ar gyfer pwrpas yswiriant. Y Clerc am drefnu i wneud rhestr gofnodi.

15. **<u>Materion Ariannol</u>**

Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.10.2025. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

16. **<u>Cyngerdd 'Ar Noson Fel Hon'</u>** – Capel Pencaenewydd – cynhaliwyd y cyngerdd 01.11.2025 hefo Aled Wyn Davies, Sarah Meredydd ac Edryd Williams yn canu rhai o ganeuon Cwmni Theatr Maldwyn, Linda Gittins yn cyfeilio, a Glyn Owens yn arwain.
Roedd yn noson llwyddianus iawn, a phob ticed wedi ei werthu, a diolchwyd i'r Cyngor Cymuned am gynorthwyo i gael arian grant o £2,000.00 gan Gronfa' Gwynedd Ni' tuag at y noson.

17. **<u>Cyfarfod Cynllun Busnes/Cyllideb</u>** - wedi cael ei gynnal o flaen y prif gyfarfod. Cytunwyd yn unfrydol i godi'r praesept am y flwyddyn ariannol nesaf rhwng 01.04.2026 – 31.03.2027 i £21,000.00 yn lle £20,500.00, sef cynydd o 2.5% oherwydd chwyddiant.

18. **<u>Elusen William Ellis</u>** – Bydd y ceisiadau yn cael ei trafod yn dilyn y prif gyfarfod fis Rhagfyr 2025 gan Gynghorwyr Llanystumdwy.

19. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol** – gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor. Mae hysbyseb wedi cael ei anfon i'r Ffynnon, ac ar yr hysbysfyrddau gyda dyddiad cau 15.01.2026.

20. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw** | Rheswm | Pris<br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd 007950B0083461O | Glanhau toiledau cyhoeddus Llanystumdwy | **2000.00** | | **2000.00** | **2000.00** |
| Llechi | Arwyddion llechi 4 pont Bydd Gronfa Gwynedd Ni yn ein ad-dalu, a bydd angen i'r Clerc hawlio'r TAW yn nol. | **340.00** | | **68.00** | **408.00** |
| Criccieth Cleaning (3934) | Glanhau lloches bws Maes Myrddin | **35.00** | **7.00** | **42.00** | **42.00** |
| *Aled Wyn Davies Wedi derbyn caniatad gan y Cadeirydd i dalu'r anfoneb yma 25.10.2025* | *Cyngerdd Pencaenewydd "Ar Noson fel Hon"<br>Cais gan Gronfa Gwynedd Ni. A bydd y taliad yn cael ei dalu nol i'r Cyngor Cymuned o fewn pythefnos* | ***2000.00*** | | ***2000.00*** | ***2000.00*** |
| *Mart Design Print(5034)<br>Wedi derbyn y bil 06.11.25 - wedi caniatau ei dalu* | *Hysbysfwrdd Beirdd Mynwent Chwilog – hanner cyntaf y bil. Bydd Gronfa Gwynedd Ni yn ein ad-dalu, a bydd angen i'r Clerc hawlio'r TAW yn nol.* | ***1229.50*** | ***245.50*** | ***1475.40*** | ***1475.40*** |

21. Cyflog mis Hydref 2025 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Hydref 2025<br>35 awr y mis x £18.85 = **£659.75** a | £659.75<br>Llai treth-<br>£132.00 =<br>**£527.75** | **527.75** | **527.75** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Hydref 2025<br>£660.00 x 20% = £132.00 | **£132.00** | **132.00** | **132.00** |
| Costau swyddfa Clerc Hydref 2025 | **26.00** | **26.00** | **26.00** |

22. **Materion hwyr**

23. **Ty'n Llan, Llanystumdwy** - Cais Cynllunio - C25/0788/41/CT - Tocio coeden o fewn ardal cadwraeth. Cefnogi.

24. **Bil Mart Design and Print** – a dderbyniwyd 06.11.2025. Cytunwyd i'w dalu yn dilyn y cyfarfod.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau **<u>04.12.2025</u>** yn Ystafell Myrddin, Neuadd Chwilog a drwy Zoom, oherwydd nad oedd yn bosib ei gynnal yn Festri Capel Pencaenewydd.